



**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i gadarnhau
Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Cyfarfod Cyhoeddus 13 Medi 2023, 09:30
Cynhaliwyd yn 3.6 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

Yn bresennol:		
Sian Griffiths	(SG)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd)
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol)
Yn Bresennol:		
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
Fliss Bennee	(FB)	Pennaeth Data (ar gyfer eitem 6)
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Ruth Davies	(RD)	Rheolwr Cymorth Hwyluso Defnyddio Gwybodaeth. (Ar gyfer eitem 4.)
Rebecca Hill	RH	Uwch Arbenigwr Iechyd y Cyhoedd
Elen De Lacy	(EDL)	Rheolwr Ymchwil a Datblygu Iechyd y Cyhoedd
Kirsty Little	(KL)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Gwybodaeth Iechyd, Cyfarwyddiaeth Gwybodaeth (Ar gyfer eitem 4.)
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd y Bwrdd
Ymddiheuriadau		
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Dros Dro Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd
Angela Cook	(AC)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (y Brifysgol)
<i>Dechreuodd y cyfarfod am 14:00</i>		



KRIC 1/2023.09.13	Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau
<p>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod gan groesawu pawb a oedd yn bresennol, gan nodi'r ymddiheuriadau a dderbyniwyd.</p> <p>Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Rhagfyr 2023.</p> <p>Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau.</p>	
KRIC 2/2023.09.13	Datganiadau o Fuddiannau
<p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.</p>	
KRIC 3/2023.09.13	Cofnodion, Cofnod Gweithredu a Materion sy'n Codi
<p>Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2023, ac fe'u cymeradwyodd.</p> <p>Trafododd y Pwyllgor y camau gweithredu agored ar y log gweithredu a nododd fod y lliw coch yn nodi gweithred a oedd wedi pasio ei ddyddiad gweithredu penodedig, neu weithred a oedd yn gofyn am ymateb:</p> <p>KRIC 2023/03: Diweddariad ar y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso:</p> <ul style="list-style-type: none">Dyweddodd IB fod papur am waith James Linde wedi'i gylchredeg a chynigiodd y dylid cau'r Weithred. <p>KRIC 2023/02: Archwiliad Dwfn: Cydraddoldeb ac Ymchwil:</p> <ul style="list-style-type: none">Dyweddodd IB wrth y Pwyllgor fod penderfyniad wedi'i wneud ar ddwy flaenoriaeth. Byddai un yn cysylltu data'r Cyfrifiad sy'n ymwneud â chanser a'r nifer sy'n derbyn brechiadau i ymchwilio i'r anghydraddoldebau yn y grwpiau hynny a byddai'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno i gyfarfod Pwyllgor mis Rhagfyr. <p>Cam Gweithredu: IB</p> <p>Roedd y flaenoriaeth arall yn dibynnu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu system weithio ar gyfer casglu data. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ddiweddariadau gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Awgrymwyd y byddai gwaith a wnaed ar y flaenoriaeth hon yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor naill ai yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024 neu fis Mehefin 2024.</p> <p>Cam Gweithredu: PV</p> <p>Cymeradwyodd y Pwyllgor gau chwe cham gweithredu ar y Log Gweithredu a chymeradwyodd estyniad i 6 Rhagfyr 2023 ar gyfer gweithredu KRIC 2023/02.</p>	



Byddai gwaith sy'n ymwneud â sgrinio cynhwysiant a gwaith a wneir yn fyd-eang yn cael ei gynnwys yn agenda'r dyfodol a byddai IB a MK yn gweithio i ddod â phapur i'r Pwyllgor.

Cam Gweithredu: IB / MK

Byddai gwaith gan SA i gysylltu'r holl waith anghydraddoldeb iechyd a wneir ar draws y Sefydliad, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cam Gweithredu: SA

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

KRIC 4/2023.09.13

Arolwg Blynyddol o Wybodaeth, Dadansoddi Data a Chynhyrchion Ymchwil

Cyflwynodd IB yr eitem hon; Roedd y Pwyllgor wedi cytuno ym mis Mawrth 2023 i fonitro effaith Prosiectau Ymchwil a Dadansoddi Data y Sefydliad.

Rhoddodd KL y cyflwyniad, a darparodd gefndir i'r dulliau arolygu a ddefnyddiwyd a diffiniodd yr amcanion. Dechreuodd 152 o ymatebwyr allanol yr arolwg a chwblhaodd 80 (53%) yr arolwg, ac yna cwblhaodd 54 o'r 80 hynny yr arolwg demograffeg ychwanegol.

Roedd y tîm wedi myfyrio ar y rhesymau posibl dros y gyfradd gyfranogi gymharol isel (53% oedd wedi cwblhau'r arolwg). Roedd yr arolwg wedi'i gwblhau gan ddefnyddwyr rheolaidd cynhyrchion y Sefydliad a oedd wedi arfer â methodoleg y Sefydliad. Cafwyd dadansoddiad manwl yn y cyflwyniad. Nododd KL fod y sgorio yn rhoi mewnwelediad i feysydd i'w gwella.

Crynhodd IB yr adroddiad, gan nodi bod y meysydd ar gyfer gwella yn feysydd a nodwyd eisoes gan y tîm; roedd yr anawsterau gyda'r wefan wedi'u codi o'r blaen trwy'r cyfnod Darganfod. Byddai'r gwaith yn symud ymlaen yn fuan i'r cam Alpha ar gyfer datblygu a gwella pellach. Ymhlith y meysydd eraill ar gyfer gwella a amlygwyd oedd tryloywder, blaenoriaethau ymchwil, a manylion cyswllt.

Gofynnodd y Pwyllgor am ddatblygu Cynlluniau Blynyddol a'r Strategaeth Hirdymor ar gyfer y Sefydliad. Cynigiwyd y byddai hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r meysydd hynny o iechyd y cyhoedd y dylai'r Sefydliad eu targedu yn y flwyddyn neu ddwy nesaf. Cydnabu'r Pwyllgor fod y Sefydliad mewn cyfnod pontio tuag at y Strategaeth newydd a'u bod yn trafod y ffordd orau o weithredu hyn. Gofynnodd y Pwyllgor ar i'r gwaith ar Bartneriaethau Strategol a gynlluniwyd ar gyfer sesiwn y Bwrdd ym mis Hydref gael ei alinio â'r gwaith hwn er mwyn osgoi dyblygu.

Cam Gweithredu: IB



Ystyriodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r adroddiad, trafododd gamau gweithredu priodol, a **nododd** y meysydd gwella a nodwyd o'r arolwg ac y byddai'r Gyfarwyddiaeth Data, Gwybodaeth ac Ymchwil yn gweithio gyda'r holl Gyfarwyddiaethau eraill i lunio cynllun gweithredu manylach i fwrw ymlaen â'r canfyddiadau hyn.

KRIC 5/2023.09.13

Cysylltiadau Strategol â Sefydliadau Academaidd

KRIC 5.1/2023.09.13

Trosolwg: Darparu Gweledigaeth ar gyfer Iechyd y Cyhoedd Academaidd yng Nghymru

Cafwyd y Pwyllgor ddiweddariad gan IB ar gyfarfod rhwng SG a Kieran Walshe. Cytunwyd y byddid yn cysylltu â rhanddeiliaid allweddol i ffurfio partneriaethau i gael gwybodaeth i yrru'r ymchwil ymlaen.

Cyflwynodd EDL y gwaith, ac eglurodd ei fod yn codi o drafodaethau gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r Prif Swyddog Meddygol. Byddai'r gwaith presennol yn pennu llinell sylfaen ac yn cynnwys ymgynghorydd iechyd y cyhoedd annibynnol, Eugenia Cronin a oedd yn ymchwilio i ba mor dda yr oedd prifysgolion Cymru yn cyflawni eu rôl iechyd y cyhoedd o dan y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) cyfredol.

Byddai astudiaethau achos a gyflwynir yn rhan o'r REF yn nodi partneriaid strategol. Archwiliwyd cronfeydd data i nodi prifysgolion yng Nghymru a oedd wedi llwyddo i dderbyn cyllid ar gyfer astudiaethau iechyd y cyhoedd. Roedd cyfweiliadau un i un rhwng uwch ymchwilwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru a staff academaidd wedi'u trefnu. Roedd cyswllt wedi'i wneud ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR) a chydweithwyr polisi o fewn Llywodraeth Cymru.

Byddai adroddiad cynhwysfawr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Rhagfyr i nodi cryfderau'r Sefydliad, a'r mathau o ymchwil yr oedd y Sefydliad wedi'u cynnig ynghyd â chydweithwyr a sefydliadau partner.

Cam Gweithredu: EDL

Roedd goruchwylio'r gwaith hwn yn cael ei reoli gan Grŵp Llywio sy'n cyfarfod yn chwarterol ac a gadeiriwyd gan IB ac roedd yn cynnwys aelodau o bob rhan o'r DU gan gynnwys Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru.

Cadarnhaodd EDL y byddai perchenogaeth ar y gwaith gyda'r Sefydliad a nododd IB mai'r ffordd ymlaen fyddai gyda phartneriaid sy'n gweithio gyda'r Sefydliad i gyflwyno gweledigaeth gadarnhaol, flaengar ar gyfer dyfodol iechyd y cyhoedd yng Nghymru.



Gofynnodd y Pwyllgor sut y byddai'r gwaith yn cael ei wneud gan ddefnyddio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU). Esboniodd IB y byddai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ddatblygu unwaith y byddai'r broses o adnabod partneriaid strategol wedi'i chwblhau. Awgrymwyd y gallai'r agendâu partneriaeth a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ddod yn lasbrint i'r Sefydliad ar gyfer ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

Mae Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso y Sefydliad wedi ymrwymo i gydweithio ar draws iechyd y cyhoedd yng Nghymru a bydd yn defnyddio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn y gwaith cydweithredol hwn. Cydnabuwyd y byddai hyn yn ffurfio glasbrint ar gyfer gwaith academaidd cydweithredol ar draws y Sefydliad a'r holl waith partneriaeth.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod y gwaith ar ddatblygu gweledigaeth ar gyfer ymchwil iechyd y cyhoedd academaidd ar y gweill a bod llywodraethu a goruchwylio priodol yn gysylltiedig ag ef.

KRIC 5.2 / 2023.09.13

Diweddariad ar drafodaethau gyda'r Brifysgol Agored a Phrifysgolion eraill

Atgoffodd IB y Pwyllgor y gofynnwyd am yr eitem hon yn y cyfarfod diwethaf i ddiweddarau'r Pwyllgor ar gynnydd gwaith gyda sefydliadau academaidd.

Rhoddodd EDL gyflwyniad i'r Pwyllgor a ddangosai'r gwaith partneriaethau strategol; datblygu dysgu â chymorth gyda'r Brifysgol Agored; a gweithio gyda phrifysgolion eraill yng Nghymru.

Roedd datblygu partneriaethau strategol yn rhan o'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso ac yn dangos ymrwymiad y Sefydliad i gydweithio a chydweithredu.

Roedd gwaith wedi dechrau i nodi meysydd ymchwil allweddol i hwyluso trafodaethau gyda phartneriaid academaidd a chyllidwyr a nodi sut y byddai'r Sefydliad yn datblygu partneriaethau strategol cryf gyda'r partneriaid mwyaf addas a oedd yn cyd-fynd â'r Sefydliad.

Roedd y Grŵp Goruchwylio Strategaeth Ymchwil yn cynnwys aelodau o bob adran o Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chyfeiriwyd partneriaethau posibl at y grŵp hwnnw i'w gwerthuso.

Roedd gan y Swyddfa Ymchwil a Datblygu reolwr partner academaidd a oedd, ynghyd ag EDL, yn caniatáu i'r Sefydliad sicrhau a chynnal y partneriaethau strategol gorau trwy gefnogi contractau a llywodraethu gwybodaeth ariannol. Byddai'r Swyddfa yn monitro unrhyw Femorandwm Dealltwriaeth a roddwyd i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y disgwyl ac yn darparu gwerth am arian.



Rhoddodd EDL ac IB ddiweddariadau cryno ynghylch gwaith gyda phrifysgolion unigol, a gafodd ei grynhai yn y cyflwyniad.

Bu Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cydweithio â phrifysgolion eraill yng Nghymru, gan gynnwys Prifysgol De Cymru; cynrychiolwyd y Sefydliad ar y Gweithgor Deallusrwydd Artiffisial mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol; gweithio gyda rhaglen CDIHP (Iechyd Clefydau Trosglwyddadwy) Prifysgol Bangor i ymchwilio i'r defnydd o gyffuriau gwella perfformiad a delwedd mewn meysydd glo blaenorol; a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd (Canolfan Ymchwil Gweithgarwch a Llesiant) grant ar y cyd gan yr Is-adran Gwella Iechyd i gefnogi ymchwil ar les meddyliol yng Nghymru a'r rhwystrau/hwyluswyr i ymgysylltu â gweithgareddau hybu lles meddyliol.

Cydnabu'r Pwyllgor bwysigrwydd y gwaith cydweithredol gyda Banc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe gan fod hyn yn sicrhau gwell defnydd o gyllid a lleihau costau ymchwil yn sylweddol.

Rhoddodd EDL wybod i'r Pwyllgor y byddai'r adroddiad terfynol ar drafod gyda phrifysgolion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr. Cydnabu'r Pwyllgor bwysigrwydd ac ehangder y gwaith hwn gan ei fod yn effeithio ar y Sefydliad cyfan a dangosodd yn allanol allu ymchwil staff Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cam Gweithredu: EDL

Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd targedu meysydd ymchwil cyffredin a sefydlu cysylltiadau â phob un o'r sefydliadau hyn. Roedd y gwaith hwn yn bwysig i gynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ystyriodd y Pwyllgor y cyflwyniad gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymgysylltiad Iechyd Cyhoeddus Cymru â'r Brifysgol Agored a Phrifysgolion eraill.

Egwyl

KRIC 6/2023.09.13

Diweddariadau ar Strategaethau

KRIC 6.1/2023.09.13

Diweddariad ar y Strategaeth Ddigidol a Data

Cyflwynodd IB adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r Strategaeth Ddigidol a Data.

Roedd y Sefydliad wedi estyn gwahoddiadau i grwpiau i roi sylwadau ar y Strategaeth cyn cyhoeddi'n swyddogol. Roedd yr adborth a dderbyniwyd wedi'i ymgorffori yn y fersiwn derfynol a gyhoeddwyd.

Roedd nifer o raglenni Darganfod yn y deuddeg mis blaenorol wedi cyflwyno Archwiliad Dwfn gan roi mewnwelediad i faterion ym meysydd ystâd y we,



Sgrinio Llygaid Diabetig, gwasanaethau sgrinio, ac adolygiad o bensaernïaeth TG. Trefnwyd adolygiad o Tarian (Diogelu Iechyd) hefyd.

Pwysleisiodd IB fod y gwaith yn gofyn am ymrwymiad i weithio gyda sefydliadau partner, holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, Gweithrediaeth y GIG, Gofal Iechyd Digidol Cymru a gyda Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd y Pwyllgor sut roedd Strategaeth Ddigidol a Data y Sefydliad yn cymharu â strategaethau asiantaethau iechyd eraill y DU. Sicrhawyd y Pwyllgor fod cryn ymchwil wedi ei wneud wrth baratoi Strategaeth y Sefydliad i sicrhau aliniad traws-sefydliadol.

Gofynnodd y Pwyllgor sut roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bwriadu symud ymlaen gyda'r gwaith o ddisodli systemau hŷn a nodwyd yn y bensaernïaeth Archwiliad Dwfn. Byddai symud i systemau cwmwl yn dilyn datblygiad o gam Alpha y gwaith a nodwyd yn y cyfnod Darganfod.

Trafododd y Pwyllgor sut y byddai cyflawni'r targedau yn y cyfnod Darganfod ac Alpha yn cael blaenoriaeth. Eglurodd IB y byddai dealltwriaeth o'r darlun cyffredinol o'r graddfeydd amser dan sylw yn cefnogi'r blaenoriaethu ac roedd y system ystyryth a ddefnyddir yn caniatáu symud adnoddau i gyflawni'r gwelliannau gorau i'r Sefydliad. Byddai arwydd cliriach o'r cynnydd i gyflawni'r gwaith Alpha yn ei le erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Nododd y Pwyllgor gynnwys y papur gan gymryd **sicrwydd** fod Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac yn enwedig y timau Gwasanaethau Digidol a Data yn cyflawni'n gyson ar elfennau craidd y strategaeth.

KRIC 6.2/2023.09.13

Diweddariad ar y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso

Cyflwynodd IB yr adroddiad gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso. Casglwyd rhestr o feysydd ymchwil o drafodaethau gyda staff o bob rhan o'r Sefydliad a byddai'r rhestr hon o feysydd ymchwil i'w hystyried yn cael eu cyflwyno i swyddogion gweithredol i'w blaenoriaethu a byddai trafodaethau'n digwydd i sicrhau bod digon o gapasiti a gallu i ymgymryd â'r gwaith.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod y rhestr hir yn cael ei chrynhai i hyd hylaw, a'i bod ar gael yn rhwydd. Cydnabuwyd bod argyfwng costau byw a ffocws newid hinsawdd yn dod i'r amlwg ac yn newid yn barhaus feysydd yr oedd angen i'r Sefydliad gadw ffocws manwl arnynt.



Gofynnodd y Pwyllgor am ystyried a ddylid cynnwys amserlenni yn y rhestr o feysydd ymchwil a gyhoeddwyd ar y we, a gofynnodd hefyd a ddylid ystyried y methodolegau a ddefnyddir yn y gwaith ar gam cynharach.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y dull gweithredu tuag at Feysydd Diddordeb Ymchwil a Gwerthuso ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023 a derbyniodd **sicrwydd** y byddai'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso yn cael ei chyhoeddi'n fuan a'i bod wrthi'n cael ei gweithredu.

KRIC 7/2023.09.13

Monitro a Sicrhau cyflawni yn erbyn y Blaenoriaethau Strategol

Rhoddodd IB ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ar fonitro a sicrhau cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau strategol. Roedd y tîm yn dechrau monitro data ac adborth defnyddwyr yn flynyddol ac amlinellodd y bwriad i ddatblygu dangosyddion amser real ac i'r metrigau gael eu datblygu'n ddangosfwrdd sicrhau perfformiad gan roi sicrwydd rheolaidd i'r Bwrdd.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod system yn cael ei datblygu i ddarparu monitro a sicrhau darpariaeth yn erbyn y Blaenoriaethau Strategol.

KRIC 8/2023.09.13

Polisiau a Gweithdrefnau i'w cymeradwyo

Cyflwynodd EDL y Polisi Camymddwyn mewn Ymchwil i'w gymeradwyo. Cadarnhaodd bod y polisi wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r broses, a oedd yn cynnwys ymgynghori drwy'r gronfa ddata ymgynghori, a chadarnhaodd ei fod wedi'i ddsbarthu i gydweithwyr yn yr Undebau Llafur i roi sylwadau.

Wele isod yr hyn a wnaeth y Pwyllgor:

- **ystyried** yr wybodaeth a gynhwysir yn y Polisi Camymddwyn mewn Ymchwil a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 1),
- **nodwyd** bod y Tîm Arweinyddiaeth wedi cymeradwyo'r Weithdrefn Camymddwyn mewn Ymchwil ac wedi cymeradwyo'r Polisi Camymddwyn mewn Ymchwil i'r Pwyllgor a
- **chyperadwyodd** y Polisi Camymddwyn mewn Ymchwil.

KRIC 9/2023.09.13

Llywodraethu Pwyllgorau

KRIC 9.1/2023.09.13

Cynllun Gwaith y Pwyllgor

Bu'r Pwyllgor yn **ystyried** ac yn **nod**i Cynllun Gwaith y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd.

Awgrymodd SG alinio agenda'r Pwyllgor hwn gyda'r agenda ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella cyn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr. Nododd PV fod hyn yn cyd-fynd â'r ffyrdd newydd o weithio a oedd yn cael eu treialu o fewn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

Cam Gweithredu: PV



KRIC 10/2023.09.13	Gweinyddiaeth i Gloi
<p>Unrhyw fusnes arall: Dim.</p> <p>Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth ar y cyfarfod drwy e-bost i LB gan gynnwys unrhyw feysydd a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i'w gwella;</p> <p>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 6 Rhagfyr 2023.</p>	
Daeth y cyfarfod i ben am 16:59	

Wedi'i Gadarnhau